




Mae eich plentyn wedi cael ei gyfeirio at y Gwasanaeth Ffisiotherapi Plant ym Mrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Hoffem gynnig galwad Fideo Brysbennu i chi a'ch plentyn gyda Ffisiotherapydd Plant. Bydd yr alwad fideo fer hon yn caniatáu i'r ffisiotherapydd sgwrsio â chi am y pryderon ynghylch anawsterau corfforol eich plentyn yn fuan ar ôl i ni dderbyn yr atgyfeiriad. Yn yr alwad fideo hon byddwn yn gallu gweld eich plentyn a sylwi'n fyr ar yr hyn sy'n peri pryder yn amgylchedd eich cartref eich hun.

Bydd yr alwad fideo yn caniatáu i'r ffisiotherapydd weld a oes angen asesiad ffisiotherapi llawn ar eich plentyn, gan nad oes angen triniaeth ar bob plentyn sy'n cael ei gyfeirio at ffisiotherapi.

Yn yr alwad fideo hon gall y ffisiotherapydd roi cyngor / sicrwydd i chi, cyfeirio at wasanaeth arall mwy priodol neu eich cyfeirio at wasanaethau lleol a fyddai'n diwallu anghenion eich plentyn. Mewn llawer o achosion efallai na fydd angen asesiad ffisiotherapi pellach a bydd eich plentyn yn cael ei ryddhau o'r gwasanaeth. Bydd y ffisiotherapydd yn trafod hyn gyda chi ar adeg yr alwad.

Fodd bynnag, yn yr alwad fideo brysbennu, efallai y bydd y ffisiotherapydd yn teimlo bod angen asesiad ffisiotherapi llawnach ar eich plentyn, os felly bydd eich plentyn yn dychwelyd i'r rhestr aros i aros am apwyntiad.

Sylwer os bydd angen i'ch plentyn aros ar y rhestr aros, bydd yn dychwelyd i'r rhestr aros o'r dyddiad y cawsom yr atgyfeiriad ac nid o ddyddiad yr alwad fideo. Ni fydd cael yr alwad Frysennu fideo gychwynnol hon yn effeithio ar eu lle ar y rhestr aros, ac ar yr alwad hon gallwn roi cyngor/gweithgareddau cychwynnol i'w cynnal cyn yr asesiad llawn a fydd o fudd i gynydd eich plentyn.

Yn yr alwad fideo efallai y byddwch yn ei chael hi'n haws cael dau oedolyn yn bresennol, un i ffilmio a'r llall i helpu eich plentyn i wneud gweithgareddau/symudiadau y bydd angen i ni eu harsylwi. Fodd bynnag, peidiwch â phoeni os ydych ar eich pen eich hun, rydym yn dal i allu gwneud yr alwad fideo.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English